Cyd-bwyllgor Corfforedig
De-orllewin Cymru
South West Wales
Corporate Joint Committee

Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru (SWWCJC)

Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg (Fersiwn 002)

Cyngor Abertawe Swansea Council
Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
Cyngor Castell-nedd Port Talbot Neath Port Talbot Council
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Pembrokeshire Coast National Park
Bannau Brycheiniog

Cyd-bwyllgor Corfforedig
De-orllewin Cymru
South West Wales
Corporate Joint Committee

Tabl Cynnwys

1. Cyflwyniad....2
2. Amcan....2
3. Y Fframwaith Cyfreithiol....3
4. Datganiad Polisi a Pholisïau Cysylltiedig....3
5. Egwyddorion ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith swyddogion....5

Adran 1: Creu ethos a diwylliant....5
Adran 2: Gwybodaeth, Arweiniad a Chefnogaeth....6
Adran 3: Dewis iaith....8
Adran 4: Llunio Polisi....9
Adran 5: Dogfennau Polisi....10
Adran 6: Cyfarfodydd....11
Adran 7: Recriwtio (pan fydd yn briodol)....12
Adran 8: Sgiliau Iaith....12
Adran 9: Hyfforddiant Iaith Gymraeg (Dolen i'r Polisi Hyfforddiant)....13
Adran 10: Arddangos y gallu i siarad Cymraeg....14
Adran 11: Cyfathrebu....15

1. Cyflwyniad

1.1 Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru (SWWCJC) wedi ymroi i sicrhau bod gan bob dysgwr, unrhyw aelod o staff yn y dyfodol (er nad oes unrhyw un ar hyn o bryd gan fod swyddogion yn cael eu penodi drwy gytundebau lefel gwasanaeth gydag awdurdodau lleol cyfansoddol), a'r cyhoedd fynediad at wasanaethau Cymraeg ac i annog y defnydd o'r gwasanaethau hynny.

1.2 Mae'r Polisi hwn yn amlinellu sut bydd SWWCJC yn ymgorffori ac yn cynnal Safonau'r Gymraeg a'r iaith ar draws SWWCJC, yn unol â'r gofynion a osodir ar SWWCJC dan Safonau Iaith Mesur y Gymraeg 2011.

1.3 Mae Safonau'r Gymraeg yn gosod dyletswydd ar SWWCJC i nodi sut bydd yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd mewnol o'r Gymraeg.

1.4 Amlinellir hyn yn Safon Weithredol 98: Mae'n rhaid i chi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol at ddibenion hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith, ac mae'n rhaid i chi gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnrwyd.

1.5 Diben y polisi yw nodi sut bydd SWWCJC yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

1.6 Datblygwyd y canllawiau mewnol hyn ar y Gymraeg ar sail y ddealltwriaeth nad oes gan Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru ei strwythur staffio ei hun ar hyn o bryd. Felly, bydd gweithredu safonau'r Gymraeg yn cael ei gyflawni mewn cydweithrediad â'r partneriaid awdurdod lleol cyfansoddol. Wrth i SWWCJC aeddfedu a datblygu, bydd y canllawiau hyn yn destun adolygiad a mireinio parhaus i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben ac yn adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn llywodraethu, adnoddau neu drefniadau gweithredol.

2. Amcan

Amcan y Polisi hwn yw darparu canllawiau i aelodau etholedig a swyddogion ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, ac felly, drwy weithredu'n unol â'r polisi hwn, bydd SWWCJC yn ceisio sicrhau:

2.1 Bod gweithlu SWWCJC yn ei gyfanrwydd yn gweithredu'n unol â'r egwyddor sylfaenol a nodir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sef na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

2.2 Bod aelodau etholedig a swyddogion yn manteisio ar bob cyfle i annog a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith defnyddwyr gwasanaeth.

2.3 Mae cyfrifoldeb ar holl Swyddogion ac Aelodau SWWCJC i hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob agwedd ar eu gwaith.

2.4 Mae SWWCJC yn parhau i ymrwymo i gyfathrebu ag aelodau etholedig a swyddogion yn Gymraeg os taw dyna maent yn ei ffafrio.

2.5 Bydd swyddogion SWWCJC yn dilyn prosesau asesu effaith trylwyr, a fydd yn asesu effeithiau posibl polisïau, penderfyniadau strategol, a chynlluniau SWWCJC ar y Gymraeg a'i defnyddwyr. Mae hyn yn cynnwys yr effaith ar allu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn cymunedau SWWCJC, a chyfleoedd i weld a chlywed yr iaith yn gyhoeddus. Disgwylir y bydd pawb yn defnyddio'r fframwaith asesu effaith integredig i asesu'r effaith ar gydraddoldeb, iaith ac anfantais economaidd-gymdeithasol er mwyn sicrhau bod holl gynlluniau SWWCJC yn cyfrannu at nodau Strategaeth y Gymraeg SWWCJC, gyda'r uchelgais hirdymor o weld nifer y siaradwyr Cymraeg yn y fwrdeistref sirol yn cynyddu.

3. Y Fframwaith Cyfreithiol

3.1 Wrth lunio'r polisi hwn, mae SWWCJC wedi rhoi sylw dyledus i Fesurau'r Gymraeg (Cymru) 2011, a ddisodlodd Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

3.2 Fel rhan o'r ddeddfwriaeth, yng Nghymru mae gan y Gymraeg statws cyfreithiol cyfartal â'r Saesneg ac ni ddylid ei thrin yn llai ffafriol.

3.3 Nid oedd rheidrwydd mwyach ar gyrff cyhoeddus i ddatblygu a gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg, ond rhaid oedd iddynt gydymffurfio â chyfres o Safonau'r Gymraeg yn hytrach. Mae'r Safonau'n esbonio sut mae disgwyl i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.

3.4 Mae'r polisi hwn yn nodi sut bydd SWWCJC yn bodloni Safon 98 (Safonau Gweithredol) sy'n gosod dyletswydd ar SWWCJC i ddatblygu a chyhoeddi polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol at ddibenion hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith.

4. Datganiad Polisi a Pholisïau Cysylltiedig

4.1 Iaith weinyddol SWWCJC yw Saesneg yn bennaf. Bydd SWWCJC yn gweinyddu yn Gymraeg lle gofynnir am hyn neu lle bo angen yn unol â Safonau'r Gymraeg. Bydd gwasanaethau a dulliau dwyieithog yn cael eu datblygu'n barhaus.

4.2 Polisi SWWCJC yw sicrhau bod yr holl aelodau etholedig a swyddogion yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg yn fewnol.

4.3 Diben y polisi hwn yw amlinellu eu cyfrifoldebau o ran defnyddio'r Gymraeg yn fewnol. Mae wedi'i gynllunio i sicrhau bod pawb yn cefnogi datblygiad yr ethos a'r diwylliant, yn ogystal â pharhau i gydymffurfio â'r rhwymedigaethau cyfreithiol a amlinellir yn Safonau'r Gymraeg

.

4.4 Mae dyletswydd statudol ar SWWCJC i ddangos ei ymrwymiad i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn SWWCJC. Rhoddir gwybod i aelodau etholedig a swyddogion, a pharheir i wneud hynny, am gyfleoedd i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg yn SWWCJC.

4.5 Mae Cynllun Corfforaethol SWWCJC ar gael ar wefan SWWCJC

4.6 Mae amryw bolisïau gan SWWCJC sydd hefyd yn cefnogi'r Gymraeg, a gellir gweld y rheiny hefyd ar y fewnrwyd a gwefan SWWCJC fel y bo'n briodol.

4.7 Wrth bennu a monitro ein safonau, bydd SWWCJC yn cydymffurfio â hawliau unigol pawb.

5. Egwyddorion ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith swyddogion

Adran 1: Creu ethos a diwylliant

Gweledigaeth

Drwy Strategaeth y Gymraeg, dylai aelodau etholedig a swyddogion gofleidio a throsglwyddo'r weledigaeth ar gyfer y Gymraeg a rannwyd ar draws SWWCJC.

SWWCJC: #Shwmaeronment – rhanbarth lle mae'r Gymraeg yn cael ei chlywed, ei siarad a'i dathlu ym mhob agwedd ar fywyd.

Ategir y weledigaeth hon gan 3 egwyddor allweddol

- **Ardal**: Byddwn yn dathlu ein hardal, ei diwylliant, ei threftadaeth a'r gweithgareddau masnachol sy'n ein gwneud yn ffyniannus, uchelgeisiol ac iach.

- **Budd**: Byddwn yn dathlu buddiannau ein hiaith, hanes, treftadaeth a diwylliant. Byddwn yn galluogi pobl i ddatblygu eu sgiliau drwy'r economi, y gweithlu, ac fel cyfle fel hwb cymdeithasol!

- **Cynefin**: Byddwn yn dathlu'r man lle rydym yn perthyn; ein cymuned gref, amrywiol, fywiog; ein pobl, a'n hunaniaeth gyfunol, gan hyrwyddo ein tirwedd leol.

- Trwy ddathlu ble rydym ni, pwy ydym ni, o ble rydym wedi dod a sut rydym wedi cyrraedd yma, byddwn yn dathlu rhanbarth De-orllewin Cymru fel lle yng Nghymru, y DU a'r Byd.

  #camaubach #gyda'ngilydd #gallu;
  #smallsteps #together #wecan

Adran 2: Gwybodaeth, Arweiniad a Chefnogaeth

Mae'r canlynol yn caniatáu gweithredu Safonau Gweithredol 121-126

Er mwyn hyrwyddo a hwyluso gweithredu'r safonau a'r defnydd cyffredinol o'r iaith, mae SWWCJC wedi creu ardal benodol ar y fewnrwyd sy'n darparu adnoddau ac arweiniad i swyddogion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Awgrymiadau a syniadau am y Gymraeg
- E-bost Allan o'r Swyddfa
- Templedi Cyfweliad
- Canllawiau ar gyfer digwyddiadau mewnol
- Taflen hyfforddiant Ateb y Ffôn
- Canllawiau ar gyhoeddiadau
- Safonau Desg Swyddfa
- Cyfieithu teitlau swyddi
- Logo SWWCJC
- Cefndiroedd sgrin

Gwefan

- Dylai'r testun ar y wefan (yr hafan a thestun pob tudalen) fod ar gael yn y ddwy iaith ac ni ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- Dylai unrhyw wybodaeth, canllawiau, a pholisïau a roddir ar y wefan fod ar gael yn y Gymraeg.

Cefndir Teams

Mae amrywiaeth o gefndiroedd Teams ar gael i aelodau etholedig a swyddogion, sy'n cynnwys dolenni perthnasol i'r ardal leol, sydd â'r logo #Shwmaeronment arnynt, neu logo Cymru'n Gweithio. Bydd y rhain yn hyrwyddo'r iaith yn fewnol ac yn allanol, ac maent ar gael ar y fewnrwyd.

Cyfarfodydd Cyhoeddus

Anogir pawb i ddechrau cyfarfodydd mewnol a chyhoeddus yn ddwyieithog drwy gyfarchion syml fel Bore da; Croeso; Prynhawn da. Mae adnoddau i helpu ar gael ar y fewnrwyd.

Trefnir gwasanaeth cyfieithu ar gyfer pob cyfarfod SWWCJC.

Digwyddiadau Cymunedol

Mae pawb yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol sy'n cael eu cynnal gyda sefydliadau partner.

Adran 3: Dewis iaith

Mae'r canlynol yn caniatáu gweithredu Safonau Gweithredol 98-104

- Mae gan aelodau etholedig a swyddogion y rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg ymysg ei gilydd yn unol â Mesur y Gymraeg

- Mae SWWCJC yn croesawu gohebiaeth gan aelodau etholedig a swyddogion yn Gymraeg ac yn Saesneg

- Gofynnir i aelodau etholedig a swyddogion beth yw eu dewis iaith o ran gohebiaeth gan SWWCJC. Gall aelodau etholedig a swyddogion dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog. Bydd y tîm Gwasanaethau Pobl a Thrawsnewid yn anfon yr holl ohebiaeth yn yr iaith a ddymunir.

- Mae gan bob aelod etholedig a swyddog yr hawl i ohebu yn Gymraeg.

- Mae SWWCJC wedi ymrwymo i sicrhau na fydd gohebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn arwain at oedi cyn derbyn ateb. Mae gwasanaeth cyfieithu ar gael i bawb a gellir ei gyrchu ar y fewnrwyd.

Adran 4: Llunio Polisi

Mae'r canlynol yn caniatáu gweithredu safonau llunio polisi 88-93

Dylid cwblhau Asesiad o'r Effaith Integredig ar gyfer y canlynol:

- Unrhyw adroddiad SWWCJC / Cabinet lle rydych yn gwneud newid sylweddol h.y. ailgynllunio gwasanaethau, newidiadau gwasanaeth, newidiadau polisi, cynigion cyllideb ac ati.

- Unrhyw benderfyniadau strategol sy'n cael eu gwneud lle mae angen rhoi sylw dyledus i leihau anghydraddoldebau canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.
- Unrhyw brosiect (h.y. rhywbeth sydd â dyddiad dechrau a gorffen ac sy'n wahanol i fusnes o ddydd i ddydd) lle mae newid yn digwydd ac yn cael effaith ar ddarparu gwasanaethau a/neu ddefnyddwyr gwasanaeth.

Adran 5: Dogfennau Polisi

Mae'r canlynol yn caniatáu gweithredu Safonau Gweithredol 104-111

- Disgwylir i'r holl bolisïau fod ar gael yn ddwyieithog, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg

- Dylid defnyddio'r ymadrodd **'mae'r polisi hwn ar gael yn Gymraeg'** neu '**mae'r polisi hwn ar gael yn Saesneg'** yn nhroedyn pob polisi.

Adran 6: Cyfarfodydd

Mae'r canlynol yn caniatáu gweithredu Safonau Cyflawni 23-26B

Safonau yw'r rhain sy'n ymwneud â chorff yn cynnal cyfarfodydd **nad ydynt ar agor i'r cyhoedd. (Mae safonau gwahanol ar gyfer cyfarfodydd sydd ar agor i'r cyhoedd)**

Gydag unigolion

- Dylai swyddogion ofyn i unigolyn a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod. Os yw'r unigolyn yn dymuno gwneud hynny, rhaid i chi roi gwybod i'r unigolyn y byddwch yn gwneud darpariaeth berthnasol.

- Os yw'r swyddogion yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod:

Rhaid i chi gynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu (safonau 23 a 27CH),

neu

ganiatáu i'r swyddogion ddefnyddio'r Gymraeg drwy wasanaeth cyfieithu yn y cyfarfod os nad yw'n bosibl cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu

- Os yw'r cyfarfod yn ymwneud â llesiant y swyddog, mae'n rhaid ei ddarparu yn Gymraeg os yw'r swyddog yn gofyn am hynny.

- Mae gan swyddogion yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd mewn perthynas â'r canlynol, a bydd SWWCJC yn gwneud y trefniadau priodol drwy gydol y broses os gofynnir am hyn

- Os na all yr unigolion sy'n gyfrifol am gynnal y cyfarfodydd uchod wneud hynny yn Gymraeg, yna gwneir trefniadau fel y gall swyddog priodol arall sy'n siarad Cymraeg wneud hynny. Lle mae hyn yn amhosibl neu mewn sefyllfaoedd lle byddai'n amhriodol, darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

Cyfarfodydd Grŵp (dim ar agor i'r cyhoedd)

- Os rhoddir gwahoddiad i bob gweithiwr fynychu cyfarfod penodol neu gyfarfod arbennig, bydd gan weithwyr yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod hwnnw. Bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu i hwyluso hyn.

Cyfarfodydd Cyhoeddus (ar agor i'r cyhoedd)

- Mae gwasanaethau cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael lle bo'n briodol ac yn unol â Safonau'r Gymraeg. Rhoddir canllawiau ar sut i benderfynu a oes angen defnyddio'r gwasanaeth i'r holl swyddogion ac fe'u hamlinellir yn y safonau.

Adran 7: Recriwtio (pan fydd yn briodol)

Mae'r canlynol yn caniatáu gweithredu safonau gweithredol 136-140

- Bydd yr holl ddogfennau sy'n berthnasol i'r broses recriwtio yn hollol ddwyieithog ac yn cynnwys y canlynol: hysbysebion swyddi; disgrifiadau swydd; manylebau unigolion; ffurflenni cais.
- Mae hawl gan ymgeiswyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cyfweliad. Os na ellir cynnal y cyfweliad yn Gymraeg, caiff gwasanaeth cyfieithu priodol ei ddarparu.

Adran 8: Sgiliau Iaith

Mae'r canlynol yn caniatáu gweithredu safonau gweithredol 127-130

- Gofynnir i bob swyddog newydd nodi eu sgiliau Cymraeg yn ystod y broses ymgeisio.

- Mae'r holl weithgareddau hyn yn galluogi SWWCJC i ddiweddaru ei anghenion o ran sgiliau ieithyddol, cydlynu a thargedu gweithgareddau hyfforddi a recriwtio.

Adran 9: Hyfforddiant laith Gymraeg (Dolen i'r Polisi Hyfforddiant)

Mae'r canlynol yn caniatáu gweithredu safonau gweithredol 128-33

- Bydd yr holl aelodau etholedig a swyddogion yn cael cefnogaeth i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg wrth gyfathrebu â'i gilydd neu â'r cyhoedd.

- Wrth i'w weithlu ddechrau a thyfu, bydd SWWCJC yn darparu ystod o gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddysgu a datblygu sgiliau Cymraeg, yn seiliedig ar anghenion y gweithlu h.y. lefel a gallu ieithyddol; rôl swydd ac amserlenni, a dulliau dysgu a ffefrir.

- Bydd ystod o gyfleoedd i swyddogion ddysgu'n anffurfiol ar gael. Ymadrodd yr wythnos, cornel Gymraeg ac ymwybyddiaeth o apiau i gefnogi dysgu.

- Hefyd mae cyfle i aelodau etholedig a swyddogion gymryd rhan mewn amryw ddigwyddiadau cymunedol sy'n cael eu cynnal ledled y rhanbarth

- Bydd SWWCJC yn cynnig hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog

- Darperir hyfforddiant yn Gymraeg ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd, cyfweliadau ac o ran cwynion/gweithdrefnau disgyblu.

Adran 10: Arddangos y gallu i siarad Cymraeg

Mae'r canlynol yn caniatáu gweithredu safon weithredol 134

- Bydd yr holl aelodau etholedig a swyddogion yn cael testun neu logo i'w cynnwys yn eu llofnod e-bost a fydd yn eu galluogi i nodi lefel eu Cymraeg.

- Anogir pob aelod etholedig a swyddog i ddangos eu gallu i siarad Cymraeg, naill ai fel siaradwr rhugl neu ddysgwr, drwy wisgo bathodyn neu gortyn.

Adran 11: Cyfathrebu

Mae'r canlynol yn caniatáu gweithredu safon weithredol 120, 135 a safonau cyflawni gwasanaeth 120-135

E-bost

- Rhaid i bob aelod etholedig a swyddog gael llofnodion a negeseuon allan o'r swyddfa.
- Anogir pob aelod etholedig a swyddog i ddechrau a gorffen negeseuon e-bost mewnol, cyflwyniadau a mathau eraill o gyfathrebu yn Gymraeg.
- Dylai'r testun Cymraeg fod yn gyntaf mewn gohebiaeth ddwyieithog
- Mae cymorth cyfieithu ar gael i swyddogion nad ydynt yn siarad Cymraeg allu ymateb i ohebiaeth Gymraeg.

Galwadau Ffôn

- Dylai swyddogion ddefnyddio'r prif rif ffôn yn eu gwybodaeth gyswllt i sicrhau bod pob galwad yn cael ei hateb drwy gyfarchiad dwyieithog. Os yw'r galwr yn dymuno parhau â'r alwad yn Gymraeg ond nid yw'r swyddog yn gallu siarad Cymraeg, bydd yr alwad yn cael ei throsglwyddo i siaradwr Cymraeg.
- Bydd swyddogion sy'n ateb y ffôn ar ran adran neu wasanaeth yn gwneud hynny gan gyfarch yn ddwyieithog.

Arwyddion

- Dylai'r holl arwyddion, posteri, a thaflenni a roddir ar waliau mewnol fod yn ddwyieithog.
- Dylai'r testun Cymraeg fod yn gyntaf ar arwyddion dwyieithog.